OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 1511 (Cy.147)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2006

Wedi'u gwneud - -	*13 Mehefin 2006*
Yn dod i rym - -	*Mehefin 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**)at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin y Gymuned Ewropeaidd, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo yn rhinwedd yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Salmonela mewn Heidiau o Frwyliaid (Pwerau Arolygu) (Cymru) 2006; maent yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 14 Mehefin 2006.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn–

ystyr "awdurdod lleol" ("local authority"), mewn perthynas ag ardal, yw'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("National Assembly") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ;

ystyr "daliad" ("holding") yw cyfleuster a ddefnyddir ar gyfer magu neu gadw brwyliaid;

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("Commission Decision") yw Penderfyniad y Comisiwn 2005/636/EC ynghylch cyfraniad ariannol gan y Gymuned at arolwg gwaelodlin ar ba mor gyffredin y mae Salmonela spp. mewn heidiau o frwyliaid Gallus gallus a hwnnw'n arolwg sydd i'w gynnal yn yr Aelod-wladwriaethau (**3**);

(2) Mae i ymadroddion a ddiffinnir ym Mhenderfyniad y Comisiwn yr un ystyr yn y Rheoliadau hyn.

(**1**) O.S. 2005/2766.
(**2**) 1972, p.68.
(**3**) OJ Rhif L 228, 3.9.2005, t.14.

Y cyfrifoldeb dros ddethol

3. Y Cynulliad Cenedlaethol sy'n gyfrifol am ddethol daliadau i'w samplu at ddibenion Penderfyniad y Comisiwn.

Dethol daliadau

4.—(1) Rhaid i feddiannydd daliad neu'r person sydd â gofal dros ddaliad (neu unrhyw gyflogai neu asiant i feddiannydd daliad neu'r person sydd â gofal dros ddaliad) anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol, cyn pen 7 niwrnod ar ôl cael cais gan y Cynulliad Cenedlaethol, yr wybodaeth y mae arno ei hangen i'w gynorthwyo i ddethol y daliadau sydd i'w cynnwys yn yr arolwg at ddibenion Penderfyniad y Comisiwn, gan gynnwys–

(a) y nifer o frwyliaid neu'r nifer o heidiau o frwyliaid ar y daliad;

(b) nifer ac amserau cylchdroeon yr heidiau o frwyliaid ar y daliad; ac

(c) math cynhyrchu'r brwyliaid ar y daliad.

(2) Mae unrhyw berson sy'n methu â chydymffurfio â'r rheoliad hwn yn euog o dramgwydd.

Pwerau arolygwyr

5.—(1) Mae gan arolygydd, ar ôl dangos rhyw ddogfen a ddilyswyd yn briodol ac sy'n dangos ei awdurdod, hawl ar bob adeg resymol, i fynd i mewn i unrhyw ddaliad a ddetholir yn unol â Phenderfyniad y Comisiwn, er mwyn canfod yn unol â'r Penderfyniad hwnnw–

(a) a yw Salmonela spp. yn bodoli neu wedi bodoli yno;

(b) statws brechu'r brwyliaid ar y daliad yn erbyn Salmonela; ac

(c) a yw cyffuriau gwrthficrobaidd wedi'u defnyddio.

(2) Yn ychwanegol at ei hawl o dan baragraff (1), caiff arolygydd fynd i mewn i unrhyw ddaliad er mwyn gorfodi'r Rheoliadau hyn.

(3) Pan fo wedi mynd i mewn i ddaliad, caiff arolygydd–

(a) cymryd samplau o deunydd ysgarthol;

(b) archwilio unrhyw gofnodion ar ba ffurf bynnag, gan gynnwys cofnodion cyfrifiadurol, a chymryd copïau o'r cofnodion hynny;

(c) holi unrhyw berson; ac

(ch) cymryd gydag ef unrhyw berson, cerbyd neu gyfarpar y mae'n barnu ei bod yn angenrheidiol i roi'r Rheoliadau hyn ar waith neu i'w gorfodi.

(4) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "arolygydd" yw unrhyw berson a benodir i fod yn arolygydd at ddibenion y Rheoliadau hyn gan y Cynulliad Cenedlaethol neu awdurdod lleol.

Tramgwyddau

6. Bydd unrhyw berson sydd–

(a) yn fwriadol yn rhwystro unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith;

(b) heb esgus rhesymol, yn methu â rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw gymorth neu wybodaeth y mae'r person hwnnw yn rhesymol yn ei gwneud yn ofynnol iddo ei roi neu ei rhoi er mwyn cyflawni ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn;

(c) yn rhoi i unrhyw berson sy'n gweithredu i roi'r Rheoliadau hyn ar waith unrhyw wybodaeth y mae'n gwybod ei bod yn anwir neu'n gamarweiniol; neu